

Draeniad Cynaliadwy mewn datblygiadau newydd yng Nghymru

Cefndir

Mae'r newyddlen hon yn dilyn ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ar weithrediad draeniad cynaliadwy (a elwir yn SuDS) ar gyfer pob datblygiad newydd yng Nghymru. Cynhaliwyd yr ymgynghoriadau hyn yn ystod haf 2017 a rhwng Tachwedd 2017 a Chwefror 2018, ac roeddent yn cynnwys gweithdai ymgynghori yng ngorllewin a gogledd Cymru ac yng Nghaerdydd ym mis Chwefror 2018.

Rydym yn bwriadu cyhoeddi cyfres o Newyddlenni dros y misoedd i ddod, gan arwain at gyflwyniad proses gymeradwyo a safonau newydd ar gyfer rheolaeth draeniad dŵr wyneb ym mis Tachwedd 2018. Ein nod yw hysbysu'r rhai hynny y bydd y broses gymeradwyo newydd yn effeithio arnynt, gan gynnwys datblygwyr a'u dylunwyr, peirianwyr ymgynghorol, cynllunwyr llywodraeth leol, peirianwyr priffyrdd a draeniad a'r rhai hynny sy'n gyfrifol am reolaeth manau gwyrdd.

Pa newidiadau sy'n cael eu cynnig ar gyfer rheolaeth dŵr wyneb?

Bydd yn rhaid i systemau draenio dŵr wyneb ar gyfer datblygiadau newydd fod wedi'u dylunio a'u hadeiladu yn unol â'r safonau ar gyfer draeniad cynaliadwy a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru. Mae'n rhaid i'r systemau hyn gael eu cymeradwyo gan yr awdurdod lleol yn gweithredu yn ei rôl fel Corff Cymeradwyo SuDS (SAB). Mewn rhai achosion bydd y SAB yn mabwysiadu'r systemau.

Egwyddorion a Safonau

Mae'r ddogfen safonol a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru yn cynnwys nifer o egwyddorion dylunio draeniad a chyfres o

chwe safon. Bydd yn angenrheidiol i ddylunwyr draeniad ddangos sut y mae eu draeniad arfaethedig ar gyfer datblygiad newydd yn cydymffurfio â'r rhain neu roi eglurhad cadarn dros unrhyw wriad oddi wrthynt.

Wrth benderfynu ar unrhyw gais am gymeradwyo cynllun draenio, mae'n rhaid i'r SAB ystyried a yw'r dyluniad yn cydymffurfio â'r safonau, gan gynnwys materion megis gofynion cynnal a chadw a mynediad.

Ym mha ffordd fydd cynlluniau draenio'n wahanol?

Amcan Llywodraeth Cymru yw y bydd systemau draenio'r dyfodol yn darparu buddion lluosog, gan gyfrannu at greu lle a gwella ansawdd manau agored cyhoeddus. Yn hytrach na bod system draenio dŵr wyneb yn cael ei dylunio i ddelio â phroblem waredu yn unig, bydd yn anelu at ddynewared systemau naturiol, gyda dŵr yn cael ei reoli cyn belled â phosibl ar y wyneb, yn hytrach nag mewn systemau tanddaearol o'r golwg. Mae angen dylunio'r systemau hyn i leihau'r perygl o lifogydd, diogelu ansawdd dŵr a darparu manteision o ran hamdden a chadwraeth.

Draeniad Cynaliadwy a'r System Gynllunio

Bydd angen gwneud ceisiadau am gymeradwyaeth ar gyfer draeniad cynaliadwy ar ddatblygiadau newydd i SAB. Tra bydd y broses hon ar wahân i'r broses caniatâd cynllunio, bydd angen trafodaethau ac ymgynghori helaeth rhwng yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI), y SAB a'r datblygwr o'r cam cyn cyflwyno'r cais er mwyn sicrhau

addasrwydd y dyluniad SuDs arfaethedig yn unol â safonau cenedlaethol, gosodiad safle digonol ac yn y pendraw, gymeradwyaeth SAB.

Gallai diffyg integreiddiad digonol rhwng y ddwy broses arwain at wrthod cymeradwyaeth SAB. O ganlyniad efallai y bydd angen i'r datblygwr gyflwyno dyluniad safle newydd, darparu gwybodaeth ategol ac oedi'r gwaith adeiladu hyd nes y bydd SAB wedi cymeradwyo'r cais.

Hyfforddiant

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu pecyn hyfforddiant er mwyn sicrhau gwell dealltwriaeth o'r system newydd. Bydd hyn yn cynnwys cwrs cyflwyno hanner diwrnod ar ddraeniad cynaliadwy a'r broses gymeradwyo newydd; cwrs hanner diwrnod manylach ar gyfer y rhai hynny sydd eisoes yn gyfarwydd â SuDS a chwrs diwrnod llawn ar gyfer y rhai hynny a fydd yn cyflwyno ac yn asesu cynlluniau draenio. Rydym yn bwriadu cyflwyno'r cyrsiau hyn ar draws Cymru ar gyfer staff Awdurdodau Lleol, datblygwyr a dylunwyr draeniad. Bydd rhagor o wybodaeth ar gael yn newyddlenni'r dyfodol.

Adnoddau

Mae amrywiaeth eang o adnoddau ar SuDs ar gael. Mae'r wefan www.susdrain.org, a gefnogir gan Lywodraeth Cymru, yn darparu dolenni i amrywiaeth eang o adnoddau ac astudiaethau achos. Mae'r rhain yn cynnwys y Llawlyfr SuDs cynhwysfawr (C753) ac Arweiniad ar adeiladu SuDS (C768).

Amserlen a threfniadau trawsnewidiol

Daw'r broses gymeradwyo newydd i rym ym mis Tachwedd 2018. Bydd trefniadau trawsnewidiol yn eu lle ar gyfer datblygiadau y cafwyd caniatâd cynllunio ar eu cyfer.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'w hymgyngoriad ar yr offerynnau statudol a fydd yn gweithredu'r system newydd ym mis Mawrth 2018. Y cam nesaf yw rhoi'r ddeddfwriaeth hon gerbron y Cynulliad er cymeradwyaeth. Unwaith y

cymeradwyr y ddeddfwriaeth bydd awdurdodau lleol, datblygwyr ac ymgynghorwyr yn cael tan fis Tachwedd i baratoi ar gyfer y broses gymeradwyo newydd.

Pa waith sydd ar y gweill ar hyn o bryd?

Mae Llywodraeth Cymru wrthi ar hyn o bryd yn rhoi sêl bendith i'r canllawiau terfynol a fydd yn cyd-fynd a'r ddeddfwriaeth ym mis Mai. Mae dogfen 'Cwestiynau Cyffredin' hefyd yn cael ei datblygu.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) hefyd yn gweithio gyda'i aelodau i ddatblygu proses gyffredin ar gyfer ceisiadau, cymeradwyo a mabwysiadu.

Cyfathrebu

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda grŵp ymgynghorol sy'n cynnwys cynrychiolwyr rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys datblygwyr, CLILC, Cyngor Defnyddwyr Dŵr, a DCWW i ddatblygu a darparu cynllun cyfathrebu ar gyfer y trosglwyddiad. Mae'n bwysig bod rhanddeiliaid yn paratoi ar gyfer y safonau dylunio a'r broses gymeradwyo newydd ar y cam cynharaf ym mywyd datblygiad.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech rannu'r newyddlen hon a gofalu fod rhanddeiliaid allweddol eraill yn eich sefydliad yn ymwybodol o'r newidiadau sydd ar ddod.

Sut alla'i gael rhagor o wybodaeth?

Gellir dod o hyd i ddatganiad ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet ar ddraeniad cynaliadwy yn :

<http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2017/sustainabledrainage/?lang=en>

Gellir dod o hyd i'r Safonau SuDs presennol yn :

<http://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/flooding/drainage/?lang=en>

Mae gwybodaeth ar yr ymgynghoriad diweddar ar gael yn :

<https://beta.gov.wales/implementation-sustainable-drainage-systems-new-developments-draft-regulations-and-national>

Os bydd arnoch angen rhagor o wybodaeth ar weithredu'r gofyniad am SuDs mewn datblygiadau newydd, cysylltwch â ni yn :
water@gov.wales
[<mailto:water@gov.wales>](mailto:water@gov.wales)